

Tasglu'r Cymoedd – Cynlluniau Peilot

Trosolwg

Fel y cytunwyd yn un arall o gyfarfodydd y tasglu, bydd cynlluniau peilot yn dechrau ym mis Ebrill mewn tair o gymunedau'r cymoedd, a fydd yn edrych ar sut y gellir integreiddio gwasanaethau a darpariaeth leol yn well. Mae'r cynlluniau peilot yn gyfle i ddatblygu model ar gyfer newid y bydd modd ei addasu a'i roi ar waith yn rhai o gymunedau eraill y cymoedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yna anghysondeb ar hyn o bryd rhwng canfyddiad a disgwyliadau pobl y cymoedd a'r hyn sy'n cael ei ddarparu'n lleol o ran buddsoddiad a gwasanaethau lleol. Mae'r cynlluniau peilot hefyd yn gyfle i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn – drwy ganolbwyntio ar ymgysylltu gwirioneddol er mwyn nodi ffyrdd o symud ymlaen a blaenoriaethau lleol.

Byddant yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Ymgysylltu â chymunedau i nodi blaenoriaethau lleol
- Datblygu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n adlewyrchu anghenion lleol yn uniongyrchol
- Darparu gwasanaethau sy'n boblogaidd ac sydd wedi ennill eu plwyf o fewn y cymunedau lleol
- Creu momentwm a thynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol
- Rhoi caniatâd ac anogaeth i bartneriaid a staff y rheng flaen i weithio mewn ffyrdd gwahanol
- Creu cydberthnasau cryf o ymddiriedaeth rhwng sefydliadau
- Cynnal momentwm ac ymrwymiad pawb sy'n gysylltiedig
- Cyfleu gweledigaeth sy'n ennyn brwdfrydedd a naratif cryf o blaid newid.

Mae yna gyfleoedd hefyd i ystyried alinio nifer o fentrau sy'n cael eu cynnal ar draws y cymoedd, ee menter awdurdodau lleol i weithredu cynllun cryfhau cymunedau yn gynnar, Cynlluniau Peilot Gofal Plant, Parthau Plant/ Canolfannau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a Chynlluniau Peilot Cyflogadwyedd Pob Oed.

Dewis cynlluniau peilot

Nodwyd tair ardal ar gyfer cynlluniau peilot y tasglu:

- **Llanhilledd, Blaenau Gwent:** Ger Crymlyn a Six Bells. Canol/Dwyrain y Cymoedd. Poblogaeth o 4,797. Adeilad cymunedol yw Sefydliad Llanhilledd, a chynhelir digwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, mentrau cymdeithasol, Gwasanaeth Gwybodaeth yr Heddlu, Clinig Babanod y Bwrdd Iechyd Lleol, meddygfa'r Bwrdd Iechyd Lleol a meddygfa annibynnol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gynradd St Illtyd yno.
- **Glynrhedynog, Rhondda Cynon Taf:** Yng Nghwm Rhondda, poblogaeth o 4,178. Canol/Gogledd y Cymoedd. Mae Ysgol Gymunedol Glynrhedynog yng nghanol y dref ac yn gysylltiedig â nifer o fentrau cymunedol rheolaidd.

- **Banwen/Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot:** Yng Nghwm Dulais Uchaf. Mae poblogaeth o 1,194 yn y gymuned gyntaf a 4,278 yn yr ail, sydd rhyw 4 milltir oddi wrth ei gilydd. Mae yna ddwy ganolfan hyfforddi gymunedol, Dove a Glyn-nedd, sy'n cael eu rhedeg gan yr un elusen fel canolfan amlasiantaethol.

Dull gweithredu

Caiff uwch was sifil ei bennu i weithio gyda phob un o'r ardaloedd peilot. I ddechrau, eu prif gyfrifoldeb fydd gweithio gyda'u cynllun peilot i nodi'r hyn sy'n rhwystr i integreiddio a chydgyssylltu'r gwasanaethau a'r cymorth yn well. Byddant hefyd yn gyfrifol am gydweithio â swyddogion eraill Llywodraeth Cymru i nodi ffyrdd o oresgyn y rhwystrau a'r problemau hyn – yn ogystal â nodi cyfleoedd eraill i ddysgu gwersi a gwella canlyniadau lleol.

Bydd yr uwch was sifil yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion er mwyn ystyried dulliau cymunedol o oresgyn rhai o'r rhwystrau a datrys rhai o'r problemau yn ystod y cyfnod peilot. Ni fydd unrhyw gyllid yn gysylltiedig â'r cynlluniau peilot. Yn hytrach bydd y ffocws ar ymchwilio i sut gellir llywio'r ddarpariaeth a sicrhau hyblygrwydd ar lefel leol drwy'r adnoddau, y cyllid a'r dulliau cydweithredol sydd gennym eisoes. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i arferion cadarnhaol. Bydd y cynlluniau peilot yn rhedeg am gyfnod o 6 mis ac yn dechrau ym mis Ebrill 2017.